

Coch a allai ddod i'r Ysgol gyda ni.

Y cwbl fydd angen ei wneud fydd rhoi help llaw gyda rhai o'r gemau a'r gweithgareddau syml. Un dosbarth yn unig fydd yn rhan o'r gwaith, ac felly criw cymharol fach o blant fydd yno – nid llond ysgol gyfan! Holweh Andrew am ragor o fanylion am y gwaith hwn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Gwener, Medi 25: Cyfarfod i drafod y Cynllun 'Agor y Llyfr' yn y festri am 9.45 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 27: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Medi 25: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 27: Cynhelir Oedfa Deulu dan arweiniad y Gweinidog am 10.30 o'r gloch. Yn ystod yr oedfa cawn fod yn dystion i sacrament y Bedydd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 27: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Medi 24: Cynhelir

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 20

10.00 a.m. - Y Gweinidog
2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 27

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Hydref 4

10.00 a.m. - Y Gweinidog

'Bwrlwm' am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 27: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Medi 21: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Medi 21: Ymddiriedolwyr yr eglwys yn cyfarfod yn y festri am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Medi 25: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 27: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Medi 25: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn festri Ebeneser, Deiniolen ar ôl y cyfarfod i drafod 'Agor y Llyfr'. Bydd y cyfarfod hwnnw am 9.45 o'r gloch a'r cyfarfod gweddi tua 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Medi 20

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Medi 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Hydref 4

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 650: Dydd Sul, 20 Medi, 2015

Cario croes

Mi ddylwn i fod wedi aros am sgwrs, ond roedd o'n sefyll mewn lle digon peryg ar y gylchfan yr ochr yma i Bont y Borth. Y groes a dynnodd fy sylw. Nid pob dydd y gwelwch chi ddyn yn datgymalu croes fawr ar ochr y lôn. Mi wnes i arafu ddigon i sylwi ar y geiriau 'Pray' a 'Wales' ar gefn ei grys-T coch.

Trwy chwilio'r We wedi dod adra mi welais mai Clive Cornish oedd y dyn efo'r groes. Nos Lun diwethaf oedd hynny, ac yn ôl y wybodaeth ar wefan 'threesixteen' roedd o wedi cychwyn taith o amgylch Cymru'r diwrnod cynt, a hynny o Lanberis! Chlywais i neb yn dweud eu bod wedi ei weld yn cario'r groes i ben yr Wyddfa'r Sul diwethaf, ond yn ôl y wefan felly y dechreuodd Clive ei daith dair wythnos o amgylch y wlad. Wrth lusgo'r groes o fan i fan (mae'r olwyn ar waelod y groes yn help!) ei fwriad yw tynnu sylw at yr Efengyl a rhannu'r newydd da am y Crist a fu farw ar groes Calfaria. Ei obaith yw cael cyfle i sgwrsio â phobl am y Ffydd a gwneud i bobl feddwl am gariad achubol Duw tuag atynt.

Nid dyma'r tro cyntaf i Clive Cornish ddilyn taith o'r fath. Mae wedi bod o amgylch Cymru dair neu bedair gwaith o'r blaen ers iddo fentro allan gyda'r groes am y tro cyntaf yn 2003. Gallwn ddychmygu'r gwahanol ymateb a gaiff Clive a'r groes fawr. I rai, mae llusgo'r groes hon yn beth od i'w wneud; i eraill, mae'n eithaf mentrus; i lawer, mae'n gwbl hurt. Ond mae'r cerddwr

ei hun yn deall hynny, ac yn chwilio am bob cyfle i egluro mor ganolog ydi croes Iesu Grist i neges yr Efengyl. Mae'n sgwrsio â phobl am y Ffydd Gristnogol ac yn trafod yr amrywiol gwestiynau y bydd pobl yn eu gofyn. Ac er mor ddieithr y fath genhadaeth i lawer ohonom, pwy a wŷr pa ddaioni a ddaw ohoni a faint o bobl a fydd wedi eu hysgogi drwyddi i feddwl am gariad rhyfeddol Duw?

Duw ei hun a wŷr, mae angen ysgogi pobl i ystyried y groes. Nid croes 12 wrth 6 troedfedd Clive Cornish ond y groes a lusgwyd gan Iesu i Galfaria. I rai, mae honno hefyd yn od neu'n hurt. I eraill, mae'n drasiedi ac yn wastraff. I lawer (ac i'r mwyafrif, o bosibl) mae unrhyw awgrym fod a wnelo'r groes â chariad Duw yn anodd ei amgyffred. Ond prawf o gariad Duw tuag atom yw'r groes er hynny. Neges fawr Y Beibl yw bod Iesu wedi ein caru i'r eithaf; a'r eithaf hwnnw oedd bodloni i ddiodef a marw yn ein lle ar groes greulon Calfaria.

Nid pawb sy'n deall hynny, wrth gwrs. Ac felly, mae unrhyw beth sy'n ysgogi pobl i feddwl am groes Iesu a'i hystyr i'w groesawu. Gallwn weddio y bydd cenhadaeth wahanol Clive Cornish yn dod â chroes y Gwardedwr i sylw llawer o bobl Cymru dros y pythefnos nesaf. Gallwn hefyd ein hatgoffa'n hunain mai cyhoeddi croes Crist (sy'n ffolineb i rai ac yn dramgwydd i eraill, ond yn oleuni a bywyd i'r credinwyr) yw ein priod waith ninnau.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw. Os na fuoch yn yr oedfa heddiw, ac os oes modd i chi ddod, gwahoddwn chi i ddod atom yr wythnos nesaf.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan. Diolch yn fawr iddo am ei wasanaeth eto heddiw. Ni fydd Ysgol Sul am fod Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun am 2.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr oedfa heno yn Oedfa Gymundeb. Cynhelir oedfa Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun am 2.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon. Croeso, a diolch iddi.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00

o'r gloch gan y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn. Diolch yn fawr iddo yntau.

Cofion

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Olive Williams gynt o Ffordd Llanllechid, Rachub a fu farw'r wythnos ddiwethaf yng nghartref ei merch yn Amlwch. Bydd ei hangladd yng nghapel Carmel am 11.00 o'r gloch ddydd Gwener nesaf, Medi 25.

Dosbarth Gwau

Cynhelir y Dosbarth Gwau yn festri Carmel Llanllechid rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch yfory, ddydd Llun, Medi 21. Croeso cynnes i chi ymuno â'r cyfeillion yn y cyfarfod hwn. Caiff ei gynnal bob pythefnos ar brynhawn Llun.

Bwrlwm

Cynhelir 'Bwrlwm' yn festri Bethlehem Talybont am 2.15 o'r gloch ddydd Iau, Medi 24. Croeso cynnes i bawb alw heibio am banded a sgwrs yn cyfarfod hwn a gynhelir bob pythefnos.

Cymanfa

Cynhelir cyfarfod Cymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo am 2.00 o'r gloch brynhawn heddiw yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug fydd yn arwain yr addoliad bawn Sul, a bydd Andrew Settatee yn cymryd rhan gyda hi.

Bydd y cyfarfod ar yr un patrwm â'r llynedd a'r blynyddoedd diwethaf, efo'r pwyslais ar ddathlu'r Ffydd a'r Efengyl trwy'r canu a'r neges a gyflwynir.

Dowch draw bawn Sul i ymuno yn yr addoliad. Bydd yr addoliad yn addas ar gyfer pobl a phlant o bob oed.

Beibl Canllaw

Mae gennyf 2 gopi o'r Beibl Canllaw a gyhoeddwyd ddechrau mis Awst ar ôl am y pris gostyngol o £20.

Felly, os ydych chi eisiau arbed £5 oddi ar bris llawn y Beibl hwn, rhwch wybod i mi mor fuan â phosibl trwy ffonio 01286 872390, neu anfon e-bost at john.cilfynydd@btinternet.com.

Agor y Llyfr

Aeth bron i flwyddyn heibio ers i ni sôn am gynnull criw o bobl yn Neiniolen er mwyn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi dan gynllun 'Agor y Llyfr'.

Cafwyd peth ymateb ond ni lwyddwyd i roi cychwyn ar y gwaith. Rydym am roi cynnig arall arni'r tymor hwn. Byddwn yn cyfarfod i drafod y gwaith yn festri Ebeneser am 9.45 o'r gloch ddydd Gwener yr wythnos hon (Medi 25). Bwriedir dechrau'r gwaith yn yr Ysgol cyn y Nadolig.

Cynllun syml yw 'Agor y Llyfr' yn ei hanfod. Mae criw bach o bobl (hyd at 6

o bobl fel arfer) yn darllen stori o'r Beibl (mewn fersiwn hawdd ei ddeall) i blant ysgol, fel arfer yn ystod addoliad rheolaidd yr ysgol. Mae elfen fechan o actio'r stori wrth ei darllen.

Mae'r gwaith yn syml ac yn rhwydd iawn. Nid oes angen gwneud mwy na darllen ychydig eiriau, ond mae'n fodd o gyflwyno storiâu'r Beibl i blant, ac o gofio na fyddai'r mwyafrif ohonynt yn clywed y storiâu hyn fel arall, mae'n rhwydd gweld gwerth y cynllun.

Mae llawer o ysgolion wedi croesawu timau 'Agor y Llyfr' yn ddiweddar ac wedi gwerthfawrogi'r ymdrech a wneir gan y timau hynny.

Rhowch wybod os ydych am fod yn rhan o'r tim hwn, neu dowch i'r cyfarfod wythnos i fore Gwener.

Y bwriad yw ymweld â'r Ysgol unwaith y mis. Rhyw hanner awr fyddwn yno ar y mwyaf. Bydd y cyfan dan nawdd Cynllun Efe.

Y Gemau

Adeg y Gemau Olympaidd yn 2012 bu Cynllun Efe yn cynnal 'Y Gemau' yn nifer o ysgolion cynradd yr ardal. Roedd 'Y Gemau' yn ddiwrnod cyfan o weithgareddau addysgol ar agweddau arbennig o'r Ffydd Gristnogol.

Mae cwrs tebyg wedi ei baratoi ar gyfer cyfnod Cwpan Rygbi'r Byd a fydd yn cychwyn ddiwedd yr wythnos hon, a bydd yn Andrew Settatee yn arwain y gweithgarwch hwn yn rhai o'r ysgolion dros yr wythnosau nesaf.

Sesiwn hanner diwrnod fydd gennym y tro hwn. Bydd un o'r sesiynau yn Ysgol Dolbadarn ddydd Iau, Hydref 1. Un o'r gobeithion ar gyfer y cwrs hwn yw creu cyswllt rhwng y plant ac eglwysi lleol. Felly, bydd Andrew'n falch iawn o glywed gan unrhyw un o bobl Capel